



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Cronfa galedi**

Cyhoeddwyd 27 Tachwedd 2012

© Hawlfraint y goron 2012  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth y mae'r hawlfraint yn eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau amgen ar gael gan [Hardship.Fund@cica.gov.gsi.uk](mailto:Hardship.Fund@cica.gov.gsi.uk)

Dylai unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon gael eu hanfon atom:

Victims and Witnesses  
8<sup>th</sup> Floor  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
London  
SW1H 9AJ

+44 (0) 20 3334 3555

## Y Gronfa Galedi

### TABL CYNNWYS

Paragraff      Darpariaeth

1-3              Cyflwyniad

4.                Gweinyddu

5.                Cychwyn

6.                Cyllido

### Cymhwyster

7.                Meini prawf cymhwyster

### Sail dros atal neu leihau taliad

8.                Collfarnau heb ddarfod

### Ceisiadau

9.                Terfyn amser

10.              Aseu cymhwyster

11.              Ymrwymadau ar geisydd

12.              Tystiolaeth i gefnogi cais

### Prosesu

13.              Aseiad cychwynol Cymorth i Ddiodefwyr

14-15           Ymrwymadau ar yr Awdurdod

## Y Gronfa Galedi

1. Cronfa yn ôl disgrisiwn yw'r Gronfa Galedi (y Gronfa) sy'n darparu cymorth dros dro yn wyneb caledi ariannol ar gyfer gweithwyr ar dâl isel iawn sy'n methu gweithio dros dro o ganlyniad uniongyrchol i fod yn ddiodefwr trosedd dreisiol. Mae'r Gronfa'n darparu taliad i ddiodefwr nad yw eu hanafiadau'n ddigon dirifol i ddod o fewn y rhestr o anafiadau yn y Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol 2012.
2. Mae'r Gronfa'n ceisio ysgafnhau caledi ariannol y rhai sydd heb unrhyw ffynhonnell arall o gymorth ariannol – er enghraifft, y rhai nad ydynt yn derbyn Tâl Salwch Statudol (SSP). Bydd y taliad yn seiliedig ar gyfradd wythnosol SSP. Bydd yn darparu cefnogaeth ariannol o'r pedwerydd i'r 28<sup>ain</sup> dydd o absenoldeb, cyn belled â bod y ceisydd wedi bod yn analluog dros dro i weithio am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol.
3. Mae'r Gronfa'n berthnasol i anafiadau a ddiodefwyd yng Nghymru a Lloegr.
4. Caiff y Gronfa ei gweinyddu gan yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol ('yr Awdurdod') ar ôl i gais gael ei gyfeirio yn seiliedig ar aseciad cychwynnol gan Gymorth i Ddiodefwr. Felly dim ond ceisiadau gaiff ei cyfeirio drwy Gymorth i Ddiodefwr fydd yr Awdurdod yn eu hystyried.
5. Daw'r Gronfa hon i rym ar 27 Tachwedd 2012. Bydd cais am daliad a dderbynnir gan yr Awdurdod ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Gronfa hon i rym yn cael ei benderfynu yn unol â'r Gronfa hon.
6. Mae'r gronfa wedi'i chapio ar £500,000 y flwyddyn.

### Cymhwyster

7. Gall ceiswyr fod yn gymwys i wneud cais i'r Gronfa os:
  - a. ydynt wedi dioddef anaf yng Nghymru neu Lloegr ar neu ar ôl 27 Tachwedd 2012 o ganlyniad i fod yn ddiodefwr uniongyrchol i drosedd dreisiol. Mae diodefwr uniongyrchol yn rhywun gafodd ei anafu'n uniongyrchol gan ymosodwr. Mae Atodiad B Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol 2012 yn disgrifio'r mathau o droseddau treisiol sy'n gallu arwain at anaf ac sydd i'w cymhwyso i'r Gronfa hon.
  - b. oeddent wedi methu gweithio am gyfnod o 7 diwrnod yn olynol o ganlyniad i anaf (corfforol neu feddyliol) a gafwyd o ganlyniad i fod yn ddiodefwr uniongyrchol i drosedd dreisiol.
  - c. ydynt yn ennill llai na'r isafswm sydd ei angen i fod yn gymwys i dderbyn Tâl Salwch Statudol (SSP), h.y. llai na £111 yr wythnos (cyn treth).

d. nad ydynt yn derbyn SSP neu gynllun cyfatebol sy'n cael ei ddarparu gan gyflogwr. Golyga hyn os yw ceisydd yn gymwys i dderbyn taliad dan SSP neu gynllun cyfatebol gan gyflogwr na fyddai'n gymwys i dderbyn taliad dan y Gronfa hon.

e. wedi dioddef anaf nad yw'n gymwys am iawndal dan Gynllun lawndal Anafiadau Troseddol 2012.

f. nad oes ganddynt unrhyw gollfarnau heb ddarhod fyddai'n eu gwahardd rhag derbyn taliad dan Gynllun lawndal Anafiadau Troseddol 2012.

g. ydynt wedi adrodd am eu hanafiadau i'r heddlu cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol bosibl (ond fel arfer o fewn 48 awr ar ôl y digwyddiad).

#### Seiliau ar gyfer atal neu leihau taliad

8. Ni fydd taliad yn cael ei wneud o'r Gronfa Galedi i geisydd sydd, ar ddyddiad y cais, â cholffarn heb ddarhod a arweiniodd at ddedfryd o garchar neu orchymyn cymunedol (gweler ymhellach Atodiad D Cynllun lawndal Anafiadau Troseddol 2012). Gyda cholffarnau eraill sydd heb ddarhod, bydd taliad yn cael ei ostwng neu ei atal oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli. Mae ceiswyr â throeddau gyrru lle mai'r unig gosb a roddwyd oedd un neu ragor o'r blith ardystiad, pwyntiau cosb neu ddirwy dan Atodlen 2 i Ddeddf Troseddwyrr Traffig 1988 wedi'u hesgusodi o'r ddarpariaeth hon ac ar y cyfan ni fydd eu dyfarniadau'n cael eu gostwng.

#### Ceisiadau

9. Gan fod y Gronfa hon yn darparu cymorth dros dro yn wyneb caledi disymwth, rhaid i bob cais gael ei dderbyn gan yr Awdurdod o fewn 8 wythnos i ddyddiad y digwyddiad.

10. Daw ceisiadau i'r Gronfa drwy gyfrwng cyfeirio yn dilyn asesiad cychwynnol gan Gymorth i Ddioddefwyr. Dim ond ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio gan Gymorth i Ddioddefwyr y bydd yr Awdurdod yn eu hystyried.

11. Cyfrifoldeb y ceisydd yw profi ei fod yn gymwys i dderbyn taliad.

12. Rhaid i'r ceisydd ddarparu'r dystiolaeth ganlynol i Gymorth i Ddioddefwyr er mwyn caniatáu iddynt wneud asesiad cychwynnol o gymhwyster:

a. cyfeirnod trosedd;

b. datganiad cyflog neu lythyr gan ei gyflogwr i ddangos bod cyfartaledd ei enillion bob wythnos yn llai na £111 yr wythnos (cyn treth) ac felly nad yw'n gymwys i dderbyn SSP;

c. os yw'r ceisydd yn hunan-gyflogedig, copi o'i ffurflen dreth ddiweddaraf i ddangos fod ei incwm yn llai na £111 yr wythnos (cyn treth)

d. copi o dystysgrif (Nodyn Ffitrwydd) gan ei feddyg sy'n dangos ei fod wedi bod yn analluog i weithio am o leiaf 7 diwrnod yn olynol o ganlyniad uniongyrchol i fod yn ddiodefwr trosedd dreisiol.<sup>1</sup>

### Prosesu

13. Unwaith y bydd Cymorth i Ddiodefwr wedi cynnal asesiad cychwynnol bydd yn anfon yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth at yr Awdurdod i'w phrosesu.
14. Unwaith y bydd yr Awdurdod wedi derbyn cais wedi'i chwblhau'n llawn gan Gymorth i Ddiodefwr bydd yn cysylltu â'r heddlu i gadarnhau manylion y digwyddiad ac yn cynnal gwiriad cofnodion troseddol i weld a oes gan y ceisydd unrhyw gollfarnau heb ddarfod y bydd rhaid eu cymryd i ystyriaeth.
15. Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad, bydd yr Awdurdod yn anelu at brosesu ceisiadau o fewn 6 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau darparu cefnogaeth amserol i'r rhai sy'n wynebu caledi ariannol ar unwaith yn dilyn anaf troseddol.

---

<sup>1</sup> Am absenoldeb o 7 diwrnod yn olynol, bydd rhaid i geisydd ddarparu copi o'u Nodyn Ffitrwydd gan eu meddyg. Nid yw copi o ffurflen hunanardystio ceisydd yn darparu tystiolaeth ddigonol at bwrpas asesu cymhwyster ceiswyr i'r Gronfa i Gymorth i Ddiodefwr na'r Awdurdod.